

Stampiau

Rydym yn dal i gasglu hen stampiau post yn Capel Coch. Mae croeso i chi eu rhoi yn y bocs yn y cyntedd. O hyn allan, byddwn yn trosglwyddo'r stampiau i Haf Thomas, Buarthau, Llanrug er budd Cymdeithas y Deillion.

Banc bwyd

Diolch i bawb sy'n rhoi bwydydd yn y bocs Banc Bwyd yng nghyntedd Capel Coch. Cofiwch, os oes gennych fwydydd addas yn sbâr wedi'r Nadolig bydd y Banc Bwyd yn falch iawn ohonynt.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Nos Lun, Ionawr 23: Y Gymdeithas Undebol yn Nhŷ Elidir am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Ionawr 29: Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan Mr John Roberts, Llanfairpwll.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Nos Wener, Ionawr 27: CIC am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Ionawr 29: Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan y Canon Idris Thomas, Deiniolen ac am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Dewi T Morris, Porthmadog. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

Y mis nesaf - Deiniolen

Ionawr 22

3.30 p.m. - Cyfarfod Gweddi

Ionawr 29

5.00 p.m. - Mr John Roberts

Chwefror 5

3.30 p.m. - Y Gweinidog

REHOBOTH

Dydd Sul, Ionawr 29: Ni fydd oedfa.

BETHLEHEM

Dydd Iau, Ionawr 26: Cynhelir 'Bwrlwm' am 2.15 o'r gloch.

Dydd Sul, Ionawr 29: Yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch. Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Eifion Williams, Llanfairfechan.

CARMEL

Dydd Llun, Ionawr 23: Te Bach yn y festri rhwng 2.30 a 4.00 o'r gloch.

Nos Wener, Ionawr 27: Dwylo Prysus am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Ionawr 29: Bydd yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch, a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Geraint Roberts.

CYNLLUN EFE

Dydd Llun, Ionawr 23: Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caeathro am 10.30 o'r gloch.



Y mis nesaf - Llanberis

Ionawr 22

10.30 a.m. - OEDFA DEULU

Ionawr 29

10.00 a.m. - Y Canon Idris Thomas

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Y Parchg Dewi T Morris

Chwefror 5

10.00 a.m. - Mr Dafydd Iwan

11.15 a.m. - Ysgol Sul



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 713: Dydd Sul, 22 Ionawr, 2017

Dwynwen

Brychan Brycheiniog, wedi gwahardd Dwynwen rhag priodi Maelon; yn ôl fersiwn arall, roedd ei chariad wedi ei threisio am ei bod hi'n gwrthod cysgu ag ef cyn iddynt briodi. Beth bynnag a ddigwyddodd, dewisodd Dwynwen beidio â phriodi, a'i chysegru ei hun i Dduw ac i wasanaethu cariadon yr oesoedd. Dan ddyllanwad y Diwygiad Protestannaidd, rhoes y mwyafrif o bobl Cymru'r gorau i weddio i saint fel Dwynwen. Ond ddiwedd yr ugeinfed ganrif, cafodd Dwynwen ei lle eto, fel nawddsant secwlar cariadon Cymru; a dydd Mercher (Ionawr 25) bydd cyfle i roi cerdyn neu anrheg yn ei henw.

Ond cyn cloi, dowch nôl i Langeinwen a Llanddyfnan. Yn ôl y sôn, roedd Brychan yn frenin duwiol a oedd o blaid y Ffydd a'r Eglwys Gristnogol. Roedd ganddo lond ty go fawr o blant – hyd at ddeugain neu fwy ohonynt! Dau o'r plant hynny oedd Ceinwen a Dyfnan, ac yn ôl yr hanes, bu'r brawd a'r chwaer yn teithio o amgylch y wlad gyda Dwynwen yn rhannu newyddion da'r Efengyl cyn iddi encilio i'r ynys; a sefydlodd Ceinwen a Dyfnan eglwysi o fewn y cymunedau y codwyd, ymhen canrifoedd, y ddwy eglwys hyn sy'n dwyn eu henwau.

Gwnewch a fynnwch o Ddydd Santes Dwynwen. Gwell hwn i Gymry na Dydd San Ffolant! Ac eto, rheitiach na dyrchafu 'Dwynwen y cariadon' yw cofio a diolch am 'Dwynwen, Ceinwen a Dyfnan yr Efengyl' a fu'n cyhoeddi cariad Duw yng Nghrist i'w pobl.

'Nid yw hon ar fap
Yn ddim byd ond cilcyn o ddaear
mewn cilfach gefn ...'

Dyna ddywed T H Parry-Williams am 'Hon' yn ei soned fawr. Cymru oedd 'y cilcyn o ddaear', y 'fangre' na allai'r bardd ddianc rhagddi. Ac fel y bardd, gwyddom ninnau fod ar 'libart' ein gwlad gymunedau bach a mawr; rhai ohonynt yn annwyl a chyfarwydd, ac eraill yn fwy dieithri lawer ohonom.

Dwy o'r cymunedau anghyfarwydd a dieithr hynny i mi yw Cerrigceinwen a Llanddyfnan. Yn Sir Fôn y mae'r ddau le; y naill ger Llangristiolus a'r llall rhwng Pentraeth a Thalwrn. Ac yno, yn ddigon naturiol hefyd, y mae eglwysi hynafol Llangeinwen a Llanddyfnan. Mae'n bosibl fod yr ail o'r ddwy wedi cau erbyn hyn gan nad oes sôn amdani, hyd y gwelaf fi beth bynnag, ar wefan Yr Eglwys yng Nghymru. Mae'n bosibl mai camgymeriad yw hynny a bod yna bobl yn dal i addoli yn Llanddyfnan.

Beth bynnag yw hanes Llangeinwen a Llanddyfnan heddiw, un eglwys ym Môn sy'n bendant wedi cau ers talwm yw Eglwys y Santes Dwynwen ar Ynys Llanddwyn. I'r ynys fechan honno mae'n debyg yr ymgiliodd Dwynwen yn y bumed ganrif i sefydlu cell neu eglwys fechan ac i fyw fel lleian. Yn ôl y sôn, roedd Dwynwen wedi dewis encilio yn dilyn siom fawr a brofodd ar ôl iddi syrthio mewn cariad â Maelon Dafodrill. Mae sawl fersiwn i'r stori. Yn ôl un, roedd ei thad, y brenin

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Balm o Salm

'Y mae Duw yn noddfa ac yn nerth i ni, yn gymorth parod mewn cyfyngder. Felly nid ofnwn er i'r ddaear symud ac i'r mynyddoedd ddisgyn i ganol y môr, er i'r dyfroedd ruo a therfysgu ac i'r mynyddoedd ysgwyd gan eu hymchwyl. Y mae afon a'i ffrydiau'n llawenhau dinas Duw, preswylfa sanctaidd y Goruchaf. Y mae Duw yn ei chanol, nid ysgogir hi; cynorthwya Duw hi ar doriad dydd' (Salm 45:1-5).



BEIBL BYW

Heddiw

Cynhelir Oedfa Deulu yn Capel Coch am 10.30 o'r gloch.

Cynhelir Cyfarfod Gweddi Dechrau Blwyddyn yn Neiniolen am 3.30 o'r gloch.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Bydd yr Ysgol Sul yn Nhalybont am 10.00 o'r gloch, a gwasanaethir am 2.00

o'r gloch gan y Gweinidog.

Ni fydd oedfa yn Rehoboth heddiw.

Cofion

Anfonwn ein cofion at bawb sydd heb fod yn dda, ac yn arbennig at bawb sy'n methu â dod i'r oedfa ar hyn o bryd.

Angladd

Cynhaliwyd angladd Mr Bert Pritchard Jones, 12 Ffordd Glanffynnon, Llanrug yn Capel Coch fore ddoe, dydd Sadwrn, Ionawr 21. Bu farw nos Lun diwethaf, Ionawr 16, yn ddirybudd ac annisgwyl, yn ei gartref. Roedd yn 89 mlwydd oed. Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â'i briod Megan, a'i ferch a'i fab, Ann a Gareth, a'r teulu cyfan yn eu colled.

Roedd y gwasanaeth yn Capel Coch yng ngofal y Gweinidog a'r Parchg Marcus Robinson, Bethel. Bethan Holding oedd yr organydd. Yn dilyn y gwasanaeth yn y capel cafwyd gwasanaeth ym Mynwent Llanrug.

Un o Lanrug oedd Bert Cae Rhos yn wreiddiol, ond wedi priodi â Megan, a threulio blynyddoedd cynnar eu bywyd priodasol yng Nglynllifon, ym gartrefodd y teulu yn Llanberis. Ac yn Llanberis y buont ar hyd y blynyddoedd, nes iddynt symud i Lanrug rai blynyddoedd wedi iddo ymdeol.

Bu'n aelod o Gôr Meibion Dyffryn Peris ers blynyddoedd, ac yr oedd y Côr yn cymryd rhan yn y gwasanaeth yn y capel ddoe hefyd. Roedd yn gymeriad annwyl a hoffus, yn wr cwrtais a bonheddig, yn llawn hiwmor a ffraethineb. Roedd yn gefnogwr pybyr a ffyddlon o Glwb Pêl

Droed Llanberis, ac roedd yn ei elfen yn gwylio'r gemau, gartref ac oddi cartref, yng nghwmni ei ffrindiau. Rhoddodd flynyddoedd o wasanaeth i'r Clwb, fel rheolwr ac aelod o'r pwyllgor, ac fe'i anrhydeddwyd trwy ei ethol yn un o 'Aelodau am Oes' y Clwb. Mae gennyf innau gof fod Bert yn cynorthwyo'r rheolwr y tymor cyntaf i mi chwarae dros Lanberis; a chof gwel na hynny hyd oed am yr anogaeth gyson a roddai i mi a'm cyd-chwaraewyr bob amser. Roedd cael fy nghanmol gan un mor wybodus a phrofiadol yn hwb i'r galon ac yn lles i'r hyder.

'Y Ffordd'

Diolch i bawb a ddaeth i gyfarfod cyntaf cwrs 'Y Ffordd' yn festri Carmel nos Fawrth diwethaf.

Roedd y drafodaeth wedi ei seilio ar y gyntaf o'r rhaglenni byr a baratowyd gan Undeb yr Annibynwyr. Byddwn yn ail edrych ar rannau o'r DVD hwn yn yr ail gyfarfod ymhen y mis. Cawn gadarnhau heno pryd yn union y bydd y cyfarfod hwnnw..



Penderfynwyd cyfarfod yn fisol, ac felly byddwn yn cywasgu'r deunydd i lai o sesiynau nag a awgrymir. Oherwydd hynny, fyddwn ni ddim yn ceisio mynd i'r afael â'r holl gwestiynau a awgrymir o fewn y cwrs!

Yn y cyfarfod cyntaf, boom yn trafod cwestiynau cyffredinol am Y Beibl a'r budd a gawn o'i ddarllen. Bydd croeso i eraill ymuno â ni yn y cyfarfod nesaf.

Cyfarfod Chwarter

Cynhelir Cyfarfod Chwarter Annibynwyr Gogledd Arfon yng nghapel Bethlehem, Talybont am 7.00 o'r gloch, nos Fercher, Ionawr 25 dan gadeiryddiaeth y Parchg Gareth Edwards, Cyffordd Llandudno, a fydd yn dweud gair neu ddau ar derfyn ei dymor fel Cadeirydd ac yn trosglwyddo'r cyfrifoldeb am gadeirio cyfarfodydd y Cyfundeb am y ddwy flynedd nesaf i weinidog yr Ofalaeth, John Pritchard.

Bydd croeso cynnes i chi i'r Cyfarfod Chwarter hwn ac edrychwn ymlaen i'ch gweld yno.

Coleg y Bala

Ar ddechrau blwyddyn mae Coleg y Bala wedi cyhoeddi taflen o ddyddiadau'r gwahanol gyrtsiau a fydd yno eleni.

Y dyddiad sydd wedi ei nodi ar gyfer Cwrs Plant Llanberis a Llanrug a Bethel yw dydd Gwener, Mai 13 hyd ddydd Sul, Mai 15. Bydd hwn ar gyfer plant 8 i 12 oed.

Er mai 'Llanberis a Llanrug a Bethel' sydd ar y daflen, mi fydd croeso i blant yr Ofalaeth gyfan ymuno â'r criw a fydd yn mynd i'r Bala. Daw rhagor o fanylion yn nes ymlaen.

Nodwch y dyddiad, felly: Mai 13-15.

Cymdeithas Undebol

Cynhelir Cymdeithas Undebol Deiniolen yn Nhŷ Elidir am 7.00 o'r gloch nos yfory, nos Lun, Ionawr 23. Y gŵr gwadd fydd Mr Alwyn Roberts, Bethel. Testun ei sgwrs fydd 'Cynllunio ac Adeiladu Hafod Eryri'. Croes cynnes i chi ymuno â ni.

CIC

Cynhelir CIC yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch nos Wener, Ionawr 27.